The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn o'r cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod ffeil** | EN010069 |
| **Prosiect** | Prosiect Pŵer Abergelli |
| **Statws** | **Terfynol** |
| **Awdur** | Ewa Sherman |
| **Dyddiad** | 15 Rhagfyr 2017 |
| **Cyfarfod â** | **Abergelli Power Limited** |
| **Lleoliad** | Temple Quay House, Bryste (Cyfarfod Ffôn) |
| **Yn bresennol** | **Yr Arolygiaeth Gynllunio**<br>Chris White – Arweinydd Cynllunio Seilwaith<br>Tracey Williams – Rheolwr Achos<br>Hefin Jones – Rheolwr Achos<br>Ewa Sherman – Swyddog Achos<br>Emma Cottam – Cynghorydd AEA a Hawliau Tîr<br>**Abergelli Power Limited**<br>Chris McKerrow<br>Dermot Scanlon<br>Kirstin Gardner – Rheolwr Prosiect |
| **Amcanion y cyfarfod** | Cyfarfo diweddaru prosiect |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol |

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd a'r cyngor a roddwyd:**

**Croeso a chyflwyniadau**

Cyflwynodd yr Ymgeisydd a'r Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) eu hunain a'u rolau priodol. Cyflwynwyd Hefin Jones fel y Rheolwr Achos newydd ar gyfer y prosiect. Amlinellwyd polisi bod yn agored yr Arolygiaeth a sicrhawyd bod pawb a oedd yn bresennol yn deall y byddai unrhyw faterion a drafodir ac unrhyw gyngor a roddir yn cael eu cofnodi a'u gosod ar wefan yr Arolygiaeth o dan adran 51 Deddf Cynllunio 2008. Ar ben hynny, gwnaed yn glir na fyddai unrhyw gyngor a roddir yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r Ymgeisydd (neu eraill) ddibynnu arno.

**Y diweddaraf am y prosiect**

Rhoddodd yr Ymgeisydd y newyddion diweddaraf mewn perthynas â'r paratoadau cyn yr ymgynghoriad a42, sydd i ddechrau ar 16 Ionawr 2018 ac i gau ar 19 Chwefror 2018. Mae'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol o dan a47 Deddf Cynllunio 2008 wedi'i gwblhau, yn dilyn ymgynghoriad â Chyngor Abertawe ac ystyriwyd eu sylwadau ac fe'u cynhwyswyd yn y ddogfen. Bydd y Datganiad Ymgynghori Cymunedol gorffenedig

ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu cyflwyno hysbysiad a46 a'r holl ddeunydd ymgynghori i'r Arolygiaeth yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 8 Ionawr 2018. Cynghorodd yr Arolygiaeth i'r Ymgeisydd sicrhau y bydd y wybodaeth ymgynghori a ddarperir ar wefan yr Ymgeisydd ac a anfonir at yr ymgyngoreion yn gyson drwyddi draw ac nad oes unrhyw wahaniaethau rhwng copïau o'r dogfennau.

Cynghorodd yr Ymgeisydd, o ran y caffaeliad gorfodol, bod trefniant wedi'i drafod ar gyfer prif safle'r Datblygiad a Gynigir; ac maent wedi cynnal arolygon pellach o'r llwybr cysylltiadau nwy i fireinio'r ffin linell goch derfynol, a fydd yn sail ar gyfer trafodaethau pellach gyda'r tirfeddianwyr a allai gael eu heffeithio. Bwriad yr Ymgeisydd yw cwblhau'r manylion a datrys unrhyw broblemau sy'n ymwneud â'r llwybrau cyn cyflwyno'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Hefyd, cadarnhaodd yr Ymgeisydd eu bwriad i gyflwyno'r cais Trwydded Amgylcheddol i Cyfoeth Naturiol Cymru tua'r un adeg â'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n ymwybodol o'r rhaglen arfaethedig ar gyfer cyflwyno.

Cynghorwyd yr Ymgeisydd, os bydd y cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu yn cael ei dderbyn ar gyfer Archwiliad, bydd yr Awdurdod Archwilio'n ceisio sicrwydd y bydd modd y gellir rhoi'r drwydded amgylcheddol angenrheidiol.

Cynghorodd yr Arolygiaeth fod adolygiad llawn o gyfres o ddogfennau cais drafft yn cymryd tua 6 i 8 wythnos, ac efallai y byddai'r Ymgeisydd yn dymuno ystyried cyflwyno'r dogfennau hynny sy'n codi materion newydd neu wahanol yn unig. Mae'r Ymgeisydd yn awyddus i gyflwyno'r un gyfres o ddogfennau cais drafft i'r Arolygiaeth ar gyfer adolygiad â phrosiect Millbrook Power. Sef: y Gorchymyn Caniatâd Datblygu; Memorandwm Esboniadol; Datganiad o Resymau; Datganiad Cyllid; Llyfr Cyfeirio; Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd; Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol; a rhai Cynlluniau Tir a Gwaith. Mynegodd yr Ymgeisydd y byddai'r dogfennau hyn yn cael eu cyflwyno i'r Arolygiaeth i'w hadolygu ym mis Mawrth 2018.

Nododd yr Ymgeisydd y byddai'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft yn cael ei gynnwys yn y gyfres o ddogfennau a gyhoeddir yn ystod y cyfnod ymgynghori a42 ar gyfer adolygu a sylwadau. Bydd hyn yn caniatáu i'r Ymgeisydd fynd i'r afael â sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru cyn cyflwyno'r adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft i'r Arolygiaeth fel rhan o adolygiad y dogfennau drafft.

Disgwylir i'r prosiect gael ei gyflwyno yn Ch2 2018.

**Safonau'r Gymraeg**

Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod wedi dod i gytundeb â Chyngor Abertawe ynghylch dull cyson o ddarparu dogfennau'r prosiect yn ddwyieithog, yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac y bydd yn darparu gwybodaeth berthnasol mewn taflenni, ac ar fyrddau gwybodaeth ar gyfer digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus.

Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus sicrhau y bydd cyfleusterau cyfieithu'n bresennol ar gyfer unrhyw ddigwyddiad a gynhelir ganddynt yng Nghymru, p'un ai os yw unrhyw un wedi nodi y byddant yn dymuno siarad yn Gymraeg o flaen llaw ai peidio.

Er bod yr Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus, ac mae'n gyfrifol am gynnal y digwyddiadau, cyfrifoldeb yr Ymgeisydd yw trefnu lleoliadau ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol ac unrhyw wrandawiadau ac i sicrhau bod y cyfleusterau angenrheidiol

ar gael. Fel y cyfryw, rhaid i'r Ymgeisydd ddarparu'r cyfleusterau cyfieithu ar gyfer pob sesiwn.

**Unrhyw Fusnes Arall**

Bydd yr Ymgeisydd yn darparu rhaglen fanwl i'r Arolygiaeth ar gyfer gyflwyno'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu.

Trefnir cyfarfod telegynadledda ar gyfer diweddaru ar y prosiect ar ôl i'r cyfnod ymgynghori statudol ddod i ben. Trefnir y cyfarfod wyneb i wyneb nesaf ar ôl i'r Arolygiaeth adolygu'r dogfennau cais drafft.